CAFFAEL
RHONDDA CYNON TAF
PROCUREMENT

# STRATEGAETH COMISIYNU, CAFFAEL CYMDEITHASOL GYFRIFOL



# A RHEOLI CONTRACTAU

2024-2030

Gwireddu blaenoriaethau Cynllun Corfforaethol y Cyngor
GWEITHIO GYDA'N CYMUNEDAU

RHONDDA CYNON TAF

# RHAGAIR



**Dros y blynyddoedd diwethaf, mae ein heconomi, cymdeithas a'n cymunedau wedi wynebu amrywiaeth gynyddol o heriau cymdeithasol ac economaidd. Felly, mae rhaid i ni sicrhau bod gwariant sector cyhoeddus yn cyflawni mwy fyth o werth o ran sicrhau deilliannau cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol cadarnhaol. Nid yw caffael cynaliadwy, effeithiol erioed wedi bod mor bwysig. Felly hefyd o ran cyflawni contractau yn llwyddiannus ar gyfer gwaith, nwyddau a'r gwasanaethau rydyn ni, bob o un ohonom ni yn eu defnyddio.**

Mae'r ffyrdd y mae sefydliadau llywodraeth leol yn caffael yn esblygu. Yn flaenorol, efallai eu bod wedi canolbwyntio ar edrych ar gaffael i gyflawni arbedion ariannol, ond bellach mae newid i ffwrdd o'r 'gwerthusiad pris ac ansawdd' traddodiadol tuag at sicrhau hefyd bod deilliannau economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol yn cael eu hystyried ar gyfer pob proses gaffael. A ninnau'n Awdurdod Lleol bydd gofyn i ni fod yn ddarbodus ag arian cyhoeddus o hyd, gan geisio sicrhau 'gwerth am arian', ond byddwn nawr hefyd yn ceisio cynnwys ffactorau ehangach sy'n helpu i gyflawni deilliannau cynaliadwy sydd o fudd i'r cymunedau rydyn ni'n eu gwasanaethu.

Mae'r dyletswyddau caffael yn Neddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 yn dechrau gyda dyletswydd gyffredinol ar awdurdodau contractio i geisio gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol eu hardaloedd trwy gaffael yn gyhoeddus mewn ffordd gyfrifol yn gymdeithasol. Mae hyn yn golygu gweithredu i gyflawni'r nodau llesiant a'r nod gwaith teg (gyda'i gilydd, y 'odau cymdeithasol gyfrifol').

Mae'r disgwyliadau yn Neddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 yn gyson â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae'r Strategaeth hon yn dwyn ynghyd yr holl ffrydiau gwaith amrywiol sy'n llifo drwy'r Gwasanaethau, mewn un man canolog – i'w nodi nhw, dangos sut maent yn cysylltu â'i gilydd a dangos tystiolaeth o'r ffordd y byddant yn cael eu cyflawni a'u monitro trwy gynllun cyflawni clir.

Dogfen strategol yw hon sy'n cyflwyno'r weledigaeth ar gyfer gweithgareddau comisiynu, caffael a rheoli contractau'r Cyngor yn y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hir. Ei phrif nodau fydd dangos sut bydd y gwasanaeth:

- **yn cyflawni ei gyfrifoldebau cymdeithasol fel y'u disgrifir yn Neddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023,**
- **yn helpu i gyflawni amcanion llesiant y Cyngor, fel y'u disgrifir yng Nghynllun Corfforaethol 2024/30,**
- **yn ategu egwyddorion polisi caffael Cymru**

**Y Cynghorydd Christina Leyshon**
Aelod y Cabinet ar faterion Gwasanaethau Corfforaethol, Cyfranogiad Ieuenctid a'r Hinsawdd

Mae croeso i chi gyfathrebu â ni yn y Gymraeg

You are welcome to communicate with us in Welsh

ADRAN 1

# CYFLWYNIAD A DIBEN

**Ar hyn o bryd, mae Cyngor Sir Rhondda Cynon Taf yn gwario tua £300 miliwn y flwyddyn gyda sefydliadau sector preifat a thrydydd sector ar y nwyddau, y gwasanaethau a'r gwaith y mae gofyn eu cael i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. Cyfrifoldeb y Cyngor yw rheoli'r arian hwn yn effeithlon ac yn effeithiol i ategu Blaenoriaethau Cynllun Corfforaethol y Cyngor, yn unol â'r Fframwaith Rheoleiddio, gan gynnwys deddfwriaeth caffael berthnasol.**

Diben y strategaeth hon yw amlinellu sut rydyn ni'n newid comisiynu a chaffael o fewn y Cyngor, i wella ein trefniadau rheoli contractau ac amlinellu'r weledigaeth a'r cyfeiriad strategaethol angenrheidiol i gyflawni deilliannau gwell i'n cymunedau.

Mae'r strategaeth hon wedi'i hanelu at hyrwyddo comisiynu, caffael a rheoli contractau yn effeithiol ledled y sefydliad cyfan.



## EIN NODAU

### Y BWRIAD O RAN Y STRATGAETH HON YW:

1. Sefydlu cyfeiriad strategol clir a blaenoriaethau ar gyfer newid.
2. Amlinellu'n glir beth fyddwn yn ei wneud a pham.
3. Nodi tri thema allweddol i ategu cyflwyno Cynllun Corfforaethol 2024-2030 y Cyngor, 'Gweithio gyda'n Cymunedau', ac uchelgeisiau'r Cyngor i fod yn net sero erbyn 2030.




Mae'r strategaeth wedi cael ei datblygu gyda gwerthfawrogiad llawn o'r fframwaith rheoleiddio cymhleth y mae comisiynu a chaffael yn gweithredu ynddo. Hefyd, mae'n cydnabod ei fod yn faes gyda risgiau uchel – gydag effeithiau arwyddocaol posibl ar ddarparu gwasanaethau, rheolaeth ariannol a chydymffurfio cyfreithiol, ynghyd ag enw da cyffredinol y Cyngor.

# DIFFINIADAU

**Er mwyn deall, yn glir o'r dechrau, yr hyn mae'r Cyngor yn ei olygu wrth drafod y tair disgyblaeth sy'n cael eu diffinio yn y strategaeth hon, mae'r diffiniadau fel a ganlyn:**

## 1. COMISIYNU Y DIFFINIAD O GOMISIYNU

**Cyfres o weithgareddau y mae'r Cyngor yn eu defnyddio i sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu cynllunio a'u trefnu i fodloni anghenion a gofynion ein cymunedau a'n dinasyddion yn y modd gorau; gan wneud hyn er mwyn cyflawni deilliannau priodol a chynaliadwy ar gyfer cenedlaethau heddiw a'r dyfodol.**

Mae'n cynnwys deall angen y boblogaeth, arfer gorau, adnoddau lleol, asesu modelau darparu eraill a defnyddio'r rhain i gynllunio, gweithredu ac adolygu newidiadau mewn gwasanaethau.

## 2. CAFFAEL CYMDEITHASOL GYFRIFOL

**Gweithredu, wrth brynu nwyddau, gwasanaethau a gwaith, i gyflawni gwerth am arian yn unol ag egwyddorion bod yn agored, tryloywder a thriniaeth gyfartal.**

Ymhlith amcanion allweddol mae cefnogi'r nodau llesiant, a'r nod gwaith teg newydd, er mwyn gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol. Mae rhaid ystyried y materion hyn trwy gydol y prosesau caffael a rheoli contractau.

## 3. RHEOLI CONTRACTAU

**Mae hyn yn ymwneud â rheoli a monitro contractau sydd ar waith gyda'r sawl sy'n darparu gwaith, nwyddau neu wasanaethau, drwy gydol oes y contract.**

Mae rheoli contractau yn canolbwyntio ar sicrhau cydymffurfio â'r telerau ac amodau, cyflawni yn unol â manyleb y gwasanaeth a monitro sut caiff deilliannau diffiniedig eu cyflawni, ynghyd â chofnodi a chytuno ar unrhyw newidiadau neu ddiwygiadau a allai godi yn ystod gweithredu a chyflawni'r contract, trwy gydol oes y contract.



2 ADRAN

# FFRAMWAITH RHEOLEIDDIO Y CYD-DESTUN CENEDLAETHOL

**Mae comisiynu a chaffael yn y sector cyhoeddus yng Nghymru wedi'i strwythuro ar sail fframwaith rheoleiddio a pholisi sy'n anelu at gyflawni deilliannau sydd wedi cael eu caffael gan fod yn agored, yn deg ac yn dryloyw, sy'n cyflwyno'r buddion llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol mwyaf i unigolion a'r ardal leol.**

I gyflawni'r deilliannau hyn, mae'n hanfodol bod y Strategaeth hon yn cyfuno'r holl ofynion hyn yn ein themâu allweddol.



**Darperir manylion trwy'r dolenni canlynol:**

- **Deddf Llywodraeth Leol 1972**
  www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1972/70/section/135
- **Deddf Caffael 2023**
  www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2023/54/contents/enacted
- **Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023**
  www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2023/54/contents/enacted
- **Cod Ymarfer Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi**
  www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2024-01/cyflogaeth-foesegol-mewn-cadwyni-cyflenwi-cod-ymarfer-arweiniad-hyfforddiant.pdf
- **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**
  www.llyw.cymru/deddf-llesiant-cenedlaethaur-dyfodol-cymru-2015-yr-hanfodion-html
- **Polisi Caffael Cyhoeddus Cymru**
  www.llyw.cymru/datganiad-polisi-caffael-html
- **Deddf Cydraddoldeb 2010**
  www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2010/15/contents
- **Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011**
  https://cyfraith.llyw.cymru/diwylliant/y-gymraeg/mesur-y-gymraeg-cymru-2011

# 3 ADRAN BLAENORIAETHAU AC AMCANION LLESIANT Y CYNGOR

**Cytunodd y Cyngor ar ei flaenoriaethau corfforaethol newydd a Chynllun Corfforaethol newydd ar gyfer 2024-2030, 'Gweithio gyda'n Cymunedau', yn ei gyfarfod ar 24 Ebrill 2024.**

Yn ogystal â phedwar amcan llesiant y Cyngor, y mae'n ofynnol i'r Cyngor eu gosod yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mae'r Cynllun Corfforaethol hefyd yn amlinellu gweledigaeth ar gyfer RhCT, lle 'Mae modd i bob person, cymuned a busnes dyfu a byw mewn Bwrdeistref Sirol iach, gwyrdd, diogel, bywiog a chynhwysol lle mae modd iddyn nhw gyflawni eu llawn botensial ym mhob agwedd ar eu bywydau a'u gwaith, nawr ac yn y dyfodol'.



## Gweledigaeth y Cyngor yw Rhondda Cynon Taf lle...

*Mae modd i bob person, cymuned a busnes dyfu a byw mewn Bwrdeistref Sirol iach, gwyrdd, diogel, bywiog a chynhwysol lle mae modd iddyn nhw gyflawni eu llawn botensial ym mhob agwedd ar eu bywydau a'u gwaith, nawr ac yn y dyfodol.*

## Diben y Cyngor a'r rheswm pam y mae'n bodoli yw...

*Darparu arweinyddiaeth gymunedol a chynnal gwasanaethau cyhoeddus o ansawdd uchel, gan weithio ochr yn ochr â thrigolion, cymunedau a'n partneriaid er mwyn i bobl, busnesau a'r amgylched ffynnu.*

**Mae Cynllun y Cyngor yn canolbwyntio ar ein pedwar Amcan Llesiant:**




**POBL A CHYMUNEDAU**
Cefnogi a grymuso trigolion a chymunedau RhCT i fyw bywydau diogel, iach a chyflawn.


**GWAITH A BUSNES**
Helpu i gryfhau a thyfu economi RhCT.

**BYD NATUR A'R AMGYLCHEDD**
RhCT gwyrdd a glân sy'n gwella ac yn gwarchod yr amgylchedd a byd natur.

**DIWYLLIANT, TREFTADAETH A'R GYMRAEG**
Cydnabod a dathlu gorffennol, presennol a dyfodol RhCT.

**Yn ogystal ag amlinellu pedwar Amcan Llesiant Pobl a Chymunedau, Gwaith a Busnes, Byd Natur a'r Amgylchedd a Diwylliant, Treftadaeth a'r Gymraeg, mae'r Cynllun yn nodi un o'r heriau mwyaf y mae'r Cyngor yn eu hwynebu:**

*Un o'n heriau mwyaf yw paratoi ar gyfer effaith Newid yn yr Hinsawdd, a mynd i'r afael â hyn. Mae'r camau i fynd i'r afael â'r her yma'n gymhleth ac yn rhyng-gysylltiedig ond rydyn ni wedi ymrwymo i leihau carbon ledled y Cyngor a'r Fwrdeistref Sirol, gan barhau i ymgorffori arbed ynni a lleihau carbon ym mhopeth rydyn ni'n ei wneud. Mae ein cyfraniadau at fynd i'r afael ag argyfyngau hinsawdd a byd natur datganedig Llywodraeth Cymru yn dod yn rhan o fusnes bob dydd yn ein wasanaethau i gyd. Mae hyn yn cynnwys yr hyn rydyn ni'n ei brynu neu ei gomisiynu ar ran y Cyngor ac yn ein gwaith gyda Llywodraeth Cymru, partneriaid rhanbarthol a lleol.*



# SUT BYDD Y GWASANAETH CAFFAEL YN HELPU I GYFLAWNI CYNLLUN CORFFORAETHOL Y CYNGOR

**Rhoddwyd y themâu strategol canlynol ar waith gyda'r nod o amlinellu fframwaith a fydd yn galluogi ymagwedd gydlynedig at gyflawni gwaith y Gwasanaeth Caffael:**

## 1 Sicrhau bod gennym ni drefniadau llywodraethu effeithiol ar waith sy'n ategu penderfyniadau comisiynu a chaffael cadarn:

- Adolygu ein dogfennau safonol i sicrhau eu bod yn addas i'w diben ac yn mynd i'r afael â blaenoriaethau allweddol/presennol.
- Sicrhau bod trefniadau wedi'u gwreiddio i weithredu'r gofynion o ran Contractau Rhagnodedig.
- Sicrhau bod y Gymraeg yn parhau i gael ei chymhwyso ar hyd ystod ein prosesau.
- Sicrhau bod ein data yn ychwanegu gwerth at y broses gaffael.
- Rhoi trefniadau monitro ar waith at ddibenion olrhain deilliannau a'u monitro'n effeithlon, ac o ran adrodd arnyn nhw yn effeithlon hefyd.
  - Datblygu'r trefniadau y bydd gofyn iddynt fod ar waith er mwyn cyflwyno adroddiad blynyddol sy'n cydymffurfio â'r gofynion a roddir arnom gan Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus 2023.
- Adolygu ein cynnwys ar y Rhyngrwyd a'r Fewnrwyd yn barhaus i sicrhau ei fod yn addas i'w ddiben.
- Sicrhau bod ein Rheolau Gweithdrefnau Contractau yn cael eu hadolygu a'u diweddaru'n rheolaidd, a bod y sefydliad cyfan yn cydymffurfio â nhw.
- Dysgu a datblygiad staff Caffael a staff ehangach ledled y Cyngor i sicrhau bod eu sgiliau ymwybyddiaeth a dealltwriaeth fasnachol yn cael eu gwella ac i weithredu polisïau, gweithdrefnau a rheoliadau newydd.

## 2 Rhoi gweithgareddau a phrosesau caffael cyfrifol yn gymdeithasol ar waith a fydd yn helpu'r Cyngor i:

- Weithredu er mwyn lleihau ôl troed carbon y Cyngor sy'n gysylltiedig â nwyddau a gwasanaethau sy'n cael eu caffael.
- Lleihau defnydd y Cyngor ar blastigau untro.
- Cefnogi menter y Cyngor, sef cael fflyd o gerbydau allyriadau isel iawn (ULEVs).
- Caffael yn lleol, pryd a ble bynnag y bo'n bosibl.
- Gwreiddio trefniadau gwaith teg a moesegol yn ein prosesau contractio a'n cadwyni cyflenwi.
- Datblygu trefniadau lle gwneir y mwyaf o'r gwerth cymdeithasol a geir o bob trefniant contractio.





## 3 Ar gyfer pob contract perthnasol, sicrhau bod cyflenwyr yn cael eu dwyn i gyfrif trwy roi trefniadau rheoli contract cadarn ar waith:

- Lle mae perfformiad yn cael ei fonitro a'i olrhain, ac adroddir ar berfformiad yn erbyn deilliannau bwriadedig y contract.
- Lle mae trefniadau ar waith er mwyn gallu delio ag uwchgyfeirio yn gysylltiedig â pherfformiad a chydymffurfio â chontract yn deg ac yn dryloyw.



**Bwriedir y bydd y themâu strategol hyn yn dangos yr hyn sy'n gyson rhwng y gwaith rydyn ni'n ei wneud i gyflawni deilliannau llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol i'r gymuned leol – buddion a gyflawnir yn y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hir.**

Nod y themâu strategol a restrir yn adran 3.4 y strategaeth hon yw helpu i gyflawni Cynllun Corfforaethol 2024-2030 y Cyngor, ac uchelgais y Cyngor i ddod yn sero net erbyn 2030.

I gynorthwyo â chyflawni themâu strategol y Strategaeth hon, datblygwyd cynllun cyflawni sy'n amlinellu beth fydd yn cael ei gyflawni, erbyn pryd.

# 4 ADRAN MONITRO AC ADRODD



**Bydd ein cynnydd o ran gweithredu'r themâu strategol yn cael eu monitro yn unol â'r cynllun cyflawni.**

Yn unol â'r gofyniad y mae Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 yn ei osod arnom, byddwn yn cyhoeddi adroddiad blynyddol sy'n crynhoi'r gwaith a gyflawnwyd ar gyfer pob blwyddyn ariannol.

**Bydd yr adroddiad yn cael ei strwythuro ar sail:**

- **Rhoi crynodeb o'r gwaith a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn.**
- **Nodi'r newidiadau a wnaed o fewn ein trefniadau llywodraethu sy'n helpu i gyflawni cysondeb i'r gwasanaeth a galluogi monitro ac adrodd effeithlon ac effeithiol.**
- **Ein cynnydd yn unol â chyflawni ein themâu strategol.**
- **Dangos sut mae'r gwaith a gyflawnwyd wedi cyfrannu at egwyddor cyflawni caffael cyhoeddus cyfrifol yn gymdeithasol (gydag enghreifftiau sy'n gysylltiedig ag amcanion llesiant y Cyngor).**
- **Crynodeb o'r caffaeliadau yn ystod y flwyddyn a arweiniodd at ddyfarnu Contract Rhagnodedig.**
- **Edrych ymlaen – amlinellu'r hyn sydd i ddod.**

Bydd y strategaeth hon yn cael ei hadolygu o leiaf yn flynyddol a, phe bai angen diwygiadau, bydd y rhain yn cael eu rhoi ar waith a chopi diwygiedig yn cael ei gyhoeddi ar ein gwefan cyn gynted ag y bo'n ymarferol yn rhesymol.


## MANYLION CYSWLLT

Caffael@rctcbc.gov.uk

**www.rctcbc.gov.uk**


Mae croeso i chi gyfathrebu â ni yn y Gymraeg
You are welcome to communicate with us in Welsh

